EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION AR GYFER AIL GYFARFOD AR BYMTHEG
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 15 Tachwedd 2019

LLEOLIAD: Ystafelloedd cyfarfod CGA, 10fed Llawr, Eastgate House, Heol Casnewydd, Caerdydd

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Ian Roberts
Clare Jones	Kevin Pascoe
Kelly Edwards	Anne Pitman
Steve Drowley	Rosemary Lait
Paul Croke	Berni Tyler

Ymddiheuriadau:

Eithne Hughes	Gwawr Taylor
David Williams	Jane Setchfield

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)

Sylwedyddion:

Ben Lester	Uwch Swyddog Polisi a Chynllunio CGA
Lloyd Williams	Swyddog Cyfathrebu CGA

Cyn cyfarfod y Cyngor, rhoddwyd y diweddariad i'r aelodau ar bolisi Llywodraeth Cymru gan Huw Owen (Dirprwy Gyfarwyddwr – Effeithiolrwydd Ysgolion) a Kevin Palmer (Dirprwy Gyfarwyddwr – Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol).

1. Croeso a rhagarweiniadau

1.1 Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*) yr aelodau i ail gyfarfod ar bymtheg Cyngor y Gweithlu Addysg. Hefyd, croesawodd y sylwedyddion, Ben Lester a Lloyd Williams, yn yr oriel gyhoeddus, y maent ill dau o CGA.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eithne Hughes, Jane Setchfield, Gwawr Taylor, David Williams a chydweithwyr yng Nghyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon a Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

1.3 Hysbyswyd yr aelodau bod Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) ac aelod o'r Cyngor, Clare Jones (*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu*), wedi mynychu Fforwm Blynyddol Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Swyddfa Archwilio Cymru ar 23 Hydref 2019. Nododd ill dwy y bu'r digwyddiad yn addysgiadol a'i fod wedi rhoi cyfle iddynt gwrdd a rhwydweithio â chydweithwyr eraill ym maes cyllid. Hefyd, nodwyd eu bod wedi cael sicrwydd mewn perthynas â gweithdrefnau llywodraethu a chydymffurfiaeth y Cyngor.

1.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y bydd y Prif Weithredwr yn briffio'r aelodau ar dri diweddariad arwyddocaol yn ystod y cyfarfod, fel yr amlinellwyd yn CGA 42/19. Hefyd, nododd fod datblygiadau pellach wedi digwydd ers yr ysgrifennwyd y papur. Pwysleisiodd fod y rhain yn faterion sylweddol i'w hadrodd i'r Cyngor.

1.5 Yn dilyn gohebiaeth yn ddiweddar gan aelod o'r cyhoedd, atgoffwyd aelodau, yn unol â Chod Ymddygiad ac Arferion Gorau CGA ar gyfer Aelodau, y dylid cyfeirio unrhyw geisiadau i gyfleu barn y Cyngor at y Cadeirydd, y Prif Weithredwr neu uwch swyddogion CGA.

2. Datgan Buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd

3.1 Cyfeiriwyd yr aelodau at y ddogfen a gyflwynwyd, sef llythyr gan Gadeirydd y Cyngor at y Gweinidog Addysg mewn perthynas â chofrestru yn y sector annibynnol fel y crybwyllwyd hefyd yn CGA 42/19. Fel y nodwyd yn y llythyr, barn CGA ers amser hir yw y dylai fod yn ofynnol i ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector annibynnol gofrestru yn yr un modd ag ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau a gynhelir ledled Cymru. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu'r ohebiaeth er mwyn atgyfnerthu safbwynt CGA yn dilyn mater a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar.

3.2 I ymateb i ymholiad gan aelod mewn perthynas â phryderon ynghylch pa mor hir y byddai diwygiad o'r fath i ddeddfwriaeth yn ei gymryd, dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer o gamau, a'r cyntaf oedd cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y Comisiynydd Plant wedi ysgrifennu at y Gweinidog hefyd yn hyn o beth.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei bod yn parhau i fynychu a chynrychioli nifer o ddigwyddiadau sy'n berthnasol i holl gategorïau cofrestru'r Cyngor. Nododd yn benodol y bu'n bresennol yn seremoni'r Brifysgol Agored ac yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru.

3.4 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn diweddariad y Cadeirydd.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019

4.1 Aeth y Cadeirydd â'r Cyngor trwy gofnodion drafft 12 Gorffennaf 2019, fesul tudalen. Gofynnodd i'r aelodau gadarnhau'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Cyngor.

Materion yn Codi

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Derbyn hysbysiad o unrhyw faterion y mae aelodau'n dymuno eu codi mewn perthynas ag eitemau 'er gwybodaeth' yr agenda (19-24)

5.1 Ni chafwyd hysbysiad o unrhyw faterion pellach.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 20 Medi 2019

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu trafod yn ddiweddarach ar yr agenda.

6.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Medi 2019

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion pellach yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu trafod yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau eraill gan yr aelodau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 23 Medi 2019

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion pellach yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu trafod yn ddiweddarach ar yr agenda.

8.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau eraill gan yr aelodau.

9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr **CGA 42/19**

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar ystod o faterion nad ydynt yn cael eu trafod yn unman arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau gan yr aelodau. Gan gyfeirio at ohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd, tynnodd sylw'r aelodau at dri mater arwyddocaol a oedd wedi datblygu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Nododd fod y mater yn ymwneud â chofrestru a rheoleiddio'r sector annibynnol wedi'i drafod yn gynharach yn yr agenda.

9.2 Roedd y diweddariad cyntaf yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018. Esboniodd fod y Cyngor

wedi derbyn fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r holiadur a gyflwynwyd i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a ddefnyddiwyd i lunio'r penderfyniad i argymell ailddosbarthu CGA. Nid oedd swyddogion yn fodlon â'r drafft, ac felly roeddent wedi'i ddychwelyd at Lywodraeth Cymru i'w ystyried ymhellach. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru ar hyn.

9.3 Nododd y Prif Weithredwr ymhellach fod Lisa Winstone wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar ar gyfer Cyfarwyddwyr Ariannol nifer o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd swyddogion yn y cyfarfod wedi nodi y gallai unrhyw ddatblygiadau pellach o ran yr ymgynghoriad gael eu gohirio er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried pob sefydliad unigol. Cytunwyd hefyd y bydd 'cynllun gweithredu' yn cael ei ddarparu i bob sefydliad i esboni'r broses wrth symud ymlaen. Hyd yn hyn, nid oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ar hyn.

9.4 Roedd yr ail ddiweddariad yn cyfeirio at baragraffau saith ac wyth y papur a oedd yn nodi y gofynnwyd i'r Cyngor wneud cais cyfun ar y cyd ag ETS Cymru, Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol am gontract tair blynedd i barhau i ddarparu'r Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Esboniodd y Prif Weithredwr, pe bai'r cais yn llwyddiannus, byddai angen i CGA gofrestru ar gyfer TAW.

9.5 Diolchwyd y Prif Weithredwr a CGA gan un aelod, a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith trwy ETS Cymru, am y gwaith a gwblhawyd wrth baratoi'r cais. Nododd yn arbennig arwyddocâd ymglymiad CGA a'r arbenigedd a oedd ar gael o ran cryfhau'r cais. Bydd yr aelodau'n parhau i gael eu diweddaru ar ddatblygiadau pellach.

9.6 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad.

10. Adolygiad ariannol chwe misol **CGA 43/19**

10.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn a oedd yn adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor am y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019 a oedd yn cynnwys rhagolwg o'r alldro ar gyfer y flwyddyn a diweddariad ar gronfeydd wrth gefn dynodedig.

10.2 Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi cytuno ar y diffyg arfaethedig rhagolygol o -£222,684 ar gyfer diwedd blwyddyn 2019-20. Roedd uwch dîm rheoli CGA wedi adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor ar ôl chwe mis a oedd yn ystyried y gwariant hyd yma ac amcangyfrif o'r gweithgarwch arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn. Fel yr adroddwyd ym mharagraff pedwar, roedd yr adolygiad hwn bellach yn amcangyfrif diffyg o -£41,374 ar gyfer diwedd blwyddyn 2019/20.

10.3 Arweiniwyd yr aelodau trwy'r papur a oedd yn amlinellu'r ffactorau a gyfrannodd at ostyngiad yn y diffyg rhagolygol, ond atgoffwyd y Cyngor hefyd y dylid darllen y ffigyrau hyn yn ofalus gan ystyried yr incwm blwyddyn lawn a dderbyniwyd yn erbyn y gwariant ar gyfer rhan o'r flwyddyn.

10.4 Yn benodol, nodwyd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £96,996 i dalu'r gost ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nad oedd cyfrif amdano. Hefyd, atgoffwyd yr aelodau mai cymhorthdal untro gan Lywodraeth Cymru oedd hwn ac y byddai'n ofynnol i CGA dalu'r gost ei hun yn y blynyddoedd i ddod.

10.5 Nodwyd ymhellach fod y gost o weithredu dyfarniad cyflog Llywodraeth Cymru ychydig yn uwch na'r disgwyl yn y gyllideb, ond roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan danwariant ar gostau mamolaeth a thadolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

10.6 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 16 i 20, nododd Lisa Winstone fod CGA mewn sefyllfa iach o ran cronfeydd wrth gefn. Atgoffwyd y Cyngor hefyd fod swyddogion yn parhau i fonitro ac adolygu darparwr presennol y gronfa ddata a'i addasrwydd at y diben (adroddir ymhellach ar hyn yn CGA 49/19). Fel rhan o'r adolygiad parhaus, cynigiwyd y dylid cynyddu cronfa wrth gefn y Gronfa Ddata gan ychwanegu £100,000 i ddod â balans cyffredinol y gronfa wrth gefn i £400,000.

10.7 I ymateb i ymholiad gan aelod, ymatebodd y Prif Weithredwr y bydd swyddogion yn adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor eto ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystyried a ddylid argymell ychwanegiad pellach at gronfa wrth gefn y Gronfa Ddata.

10.8 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r cynnydd o £100,000 i gronfa wrth gefn y Gronfa Ddata.

11. Adolygiad chwarterol, 1 Gorffennaf – 30 Medi 2019 CGA 44/19

11.1 Cyflwynodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) yr adolygiad o gynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Gweithredol CGA ar gyfer ail chwarter blwyddyn weithredol 2019-20. Cyfeiriwyd yr aelodau at y crynodeb o gyflawniadau allweddol fesul amcan, fel yr amlinellir ar dudalennau 1 a 2 yr Atodiad.

11.2 O ganlyniad i drafodaethau'r Cyngor yn y cyfarfod blaenorol, nododd fod y papur bellach yn cyfeirio at faterion penodol i'w tynnu at sylw'r aelodau ac a amlinellwyd ym mharagraff pedwar.

11.3 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adolygiad.

12. Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysgu CGA 45/19

12.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn ac esboniodd mai un o brif swyddogaethau CGA o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg. Mewn deddfwriaeth, nodwyd fod CGA yn gallu cyflawni'r gwaith hwn ar gais a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

12.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff wyth, hysbyswyd yr aelodau bod CGA wedi caffael cyflenwr i adnewyddu'r brand er mwyn creu hunaniaeth glir ymhlith cynulleidfaoedd targed. Adroddwyd bod y gwaith hwn yn y cam o gael ei brofi ar y farchnad ar hyn o bryd a rhagwelwyd y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2019.

12.3 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff naw, nododd fod CGA wedi contractio darparwr i ddatblygu platfform digidol gwell sy'n cynnwys gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol a chronfa ddata swyddi gwag. Roedd y fanyleb ar gyfer y platfform newydd yn seiliedig ar ymchwil i'r farchnad; cynhelir cyfarfod pellach rhwng y cyflenwr a CGA ym mis Tachwedd 2019.

12.4 Wedyn, rhoddodd Bethan Stacey ddiweddariad i'r aelodau ar y 'Fforwm Recriwtio Addysg i Gymru' a ddatblygwyd i greu rhwydwaith recriwtio a marchnata ledled Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 28 Hydref 2019 ac fe'i cadeiriwyd gan Lywodraeth Cymru gyda CGA yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth.

12.5 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y diweddariad ar gynnydd.

13. Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru CGA 46/19

13.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn diweddaru'r aelodau ar rôl y Cyngor fel Ysgrifenyddiaeth annibynnol ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi ymgymryd â'r rôl ddiwedd mis Chwefror 2019 a bod y gwaith yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

13.2 Ar ôl gweithio i amserlen dynn iawn ar gyfer y rownd adolygu gyntaf, atgoffwyd yr aelodau bod yr holl waith wedi'i gyflawni a chyflwynodd IWPRB ei adroddiad cyntaf i'r Gweinidog Addysg ar 12 Mehefin 2019.

13.3 Bydd cylch gwaith IWPRB yn cael ei ymestyn i ystyried amodau yn ogystal â chyflog yn yr ail rownd adolygu. Roedd swyddogion wedi dechrau gweithio ar gyfer yr adolygiad nesaf a chafodd yr aelodau gyfarfod paratoadol ar 5 Medi 2019. Hyd yma, nid oedd y cylch gwaith wedi'i gyhoeddi eto er bod Cadeirydd IWPRB wedi ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y Corff yn cael yr un amserlenni â'i gyfatebydd yn Lloegr, sef y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), o ran y cylch gwaith a chyflwyno'r ail adroddiad.

13.4 Hefyd, hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod aelod newydd o staff wedi'i recriwtio i arwain y gwaith hwn. Dechreuodd y gweithiwr yn ei swydd ddiwedd mis Hydref 2019 ac roedd yn cael cefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau Corfforaethol i gyflawni'r rôl.

13.5 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad.

14. Diweddariad ar waith ymchwil CGA CGA 47/19

14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn crynhoi cynnydd ar weithgarwch CGA ym maes ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru.

14.2 Cyfeiriwyd yr aelodau ganddi at adolygiad o gynllun peilot bwrsariaeth ymchwil CGA a atodwyd i'r papur. Esboniodd fod hwn yn adolygiad cynhwysfawr o'r cynllun presennol, a ddaeth i'r casgliad y dylid cyflwyno dau opsiwn i'r aelodau eu trafod o ran symud ymlaen â'r cynllun.

14.3 Trafododd yr aelodau'r ddau opsiwn, a thrafod yn benodol y materion a godod â'r ceisiadau a dderbyniwyd y llynedd. Nodwyd hefyd fod nifer o asiantau eraill yn darparu bwrsariaethau tebyg ac felly bydd angen i'r Cyngor ystyried sicrhau bod cynllun CGA yn ddigon amrywiol i beidio â gorlwytho'r farchnad.

14.4 Cyfeiriodd un aelod yn arbennig at ddigwyddiad diweddar gan Pak Tee, 'Dosbarth Meistr mewn Newid Addysgol,' a gynhaliwyd gan CGA. Nododd y gellid defnyddio digwyddiadau o'r fath fel offeryn ymgysylltu i gyflwyno cofrestreion i waith ymchwil.

14.5 Yn dilyn nifer o drafodaethau, penderfynodd yr aelodau mai hybrid o'r ddau opsiwn fyddai'r dull gorau o adolygu'r cynllun bwrsariaeth ymchwil presennol. Cytunodd y swyddogion i gyfuno'r opsiynau a gwneud cyflwyniad arall i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor ar gyfer trafodaethau pellach.

15. Adroddiad cynnydd priodoldeb i ymarfer CGA 48/19

15.1 Cyflwynodd Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) yr adroddiad cynnydd hwn a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau sy'n deillio o'r adroddiad.

15.2 Dywedwyd bod 27 gwrandawiad wedi'u cwblhau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, gyda 22 gwrandawiad arall wedi'u trefnu rhwng mis Ionawr a mis Ebrill. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff pump, nodwyd y nifer sylweddol o ddiwrnodau gwrandawiad sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn.

15.3 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff 15, nodwyd fod gwiriad cydymffurfio blynyddol â chyflogwyr yn parhau, a derbyniwyd 170 o ymatebion, a arweiniodd at dri atgyfeiriad achos ychwanegol.

15.4 Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 26 a 27, adroddwyd bod sesiwn hyfforddiant Cadeirydd y panel priodoldeb i ymarfer wedi'i threfnu ar gyfer 31 Ionawr 2020, a bod hyn yn ychwanegol at yr hyfforddiant gorfodol blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2019. Nodwyd ymhellach y bydd nifer fach o aelodau'r panel yn derbyn hyfforddiant hefyd er mwyn dod yn Gadeiryddion Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer y paneli hyn fel rhan o gynllunio olyniaeth CGA.

15.5 Wedyn, gofynnodd Liz Brimble i'r aelodau ystyried y dogfennau canllawiau drafft a atodwyd i'r papur. Roedd un yn ddogfen ganllawiau i rieni a ddrafftiwyd mewn cydweithrediad â ParentKind ac roedd yr ail yn ychwanegiad arall at gyfres o ganllawiau arferion da'r Cyngor ar gynnal ffiniau proffesiynol â dysgwyr. Gwahoddwyd yr aelodau i drafod a chymeradwyo'r ddwy ddogfen ar gyfer eu cyhoeddi.

15.6 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ar ffurfioldeb y ddogfen ganllawiau i rieni, nododd y Prif Weithredwr fod y dull hwn yn ofynnol i adlewyrchu'r dull ffurfiol sydd ei angen pe bai rhiant yn dymuno atgyfeirio at CGA.

15.7 Yn dilyn trafodaeth lawn ac awgrymiadau niferus, penderfynwyd y bydd swyddogion yn gwneud y mân newidiadau fel y'u codwyd gan yr aelodau. Ar y sail hon, roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi.

15.8 Wrth drafod y canllawiau arferion da ar gynnal ffiniau proffesiynol, nododd yr aelodau fod angen mawr am ddogfen ganllawiau ar y pwnc hwn, a chymeradwywyd y drafft am ansawdd yr ysgrifennu a'r ystyriaeth. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi.

16. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 49/19

16.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn yn diweddaru'r aelodau ar waith y Cyngor mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu'r dyfarniad Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

16.2 Fel yr amlinellir yn atodiad A, adroddwyd fod cyfanswm o 76,928 o gofrestreion ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y ffigwr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ychydig yn is o gymharu â'r llynedd.

16.3 Gan gyfeirio at baragraff pedwar, adroddwyd fod nifer y cyflogwyr nad oeddent yn cydymffurfio yn sylweddol is o ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu helaeth sy'n parhau i gael ei wneud gan swyddogion. Mae swyddogion yn parhau i fonitro cydymffurfiad â gwiriad gweithdrefnol misol.

16.4 Fel yr adroddir ym mharagraffau 6 i 8, mae swyddogion yn parhau i fonitro cronfa ddata'r Cyngor a'i darparwr presennol. Nododd Liz Brimble ei bod wedi ymweld â Gofal Cymdeithasol Cymru i weld a thrafod eu cronfa ddata, ei defnydd a'i darparwr fel rhan o'r ymarfer adolygu. Fel yr adroddwyd yn 43/19, roedd swyddogion yn awyddus i gynyddu cronfa wrth gefn y gronfa ddata er mwyn darparu ar gyfer y datblygiad hwn yn y dyfodol.

16.5 Maes datblygu newydd yw gweithredu cyfleuster tecstio er mwyn gwella cyfathrebu â chofrestreion. Sicrhawyd yr aelodau na fydd y dull hwn o ymgysylltu'n disodli'r system e-bost bresennol, ond y bydd yn cael ei ddefnyddio'n gymesur gan barhau i ystyried y costau dan sylw ar yr un pryd.

16.6 Gan ddiweddaru'r aelodau ar brosiectau data CGA, nodwyd y swm sylweddol o ddata a oedd yn ofynnol gan IWPRB. Roedd nifer o brosiectau eraill yn mynd rhagddynt hefyd, gan gynnwys glanhau data'n rheolaidd.

16.7 Gan dynnu sylw at y diweddariad ym mharagraff 17, adroddwyd y tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at nifer o faterion, gan gynnwys tua 150 o ymarferwyr ar draws y 22 awdurdod lleol sy'n gweithio fel athrawon ysgol 'heb gymhwyso'. Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, esboniwyd bod ysgolion yn gallu cyflogi ymarferwyr heb SAC fel 'hyfforddwyr' mewn rhai amgylchiadau a nodir mewn deddfwriaeth.

16.8 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad.

17. Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon CGA 50/19

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl statudol y Cyngor o achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru.

17.2 Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 1 i 3, roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Brifysgol Agored i ddatblygu cwrs Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig rhan-amser a llwybr cyflogedig i addysgu, i'w darparu o flwyddyn academaidd 2019-20 ymlaen. Roedd y ddwy raglen wedi'u cyflwyno i CGA i'w hachredu, ac roedd yr ymweliad asesu achrediad cyntaf wedi'i amserlennu ar gyfer mis Rhagfyr 2019. Y gobaith oedd y bydd y ddwy raglen yn cychwyn o fis Medi 2020.

17.3 I ymateb i ymholiad gan aelod ynghylch nifer yr athrawon ysgol a recriwtiwyd yn erbyn y targedau a amlinellir yn atodiad A, nododd y Prif Weithredwr fod CGA a phartïon eraill wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at faterion yn ymwneud â'r targedau hyn.

17.4 Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cyngor, roedd yr Athro John Furlong wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd y Bwrdd Achredu o fis Medi 2019. Yn dilyn proses recriwtio lawn, penodwyd aelod o'r Bwrdd, Dr Hazel Hagger, i'r swydd.

17.5 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad.

18. Y Pasbort Dysgu Proffesiynol **CGA 51/19**

18.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn diweddaru'r aelodau ar ddatblygiad y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar ran Llywodraeth Cymru.

18.2 Adroddodd fod y defnydd o'r PDP yn parhau i weld cynnydd o 513 o ddefnyddwyr newydd ar gyfartaledd bob mis, gyda 21,742 o ddefnyddwyr wedi creu eu PDP hyd yma.

18.3 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff pedwar a oedd yn adrodd ar ddatblygiad darn sylweddol o feddalwedd a ddechreuodd ym mis Awst 2019. Rhagwelir y bydd y Prosiect Delweddu Map i Safonau yn cael effaith sylweddol wrth ddatblygu'r PDP gan gynnwys rhoi offer newydd a gwell i ddefnyddwyr.

18.4 Adroddwyd hefyd fod swyddogion yn parhau i weithio tuag at welliannau yn y dyfodol, fel y'u rhestrir ym mharagraff pump. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyflwyno'r PDP i grwpiau eraill o gofrestreion y Cyngor.

18.5 Roedd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r PDP ac yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion CGA fel rhan o grŵp datblygu'r PDP. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg er mwyn cytuno ar strategaeth o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'r PDP. Roedd paragraff 11 yn amlinellu rhai o'r canlyniadau allweddol o'r cyfarfodydd hyn.

18.6 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

19-24. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau ac adroddiadau "er gwybodaeth" ar:

- Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19 **(CGA 52/19)**
- Adroddiad monitro blynyddol y Gymraeg **(CGA 53/19)**
- Adolygiad chwarterol (1 Ebrill – 30 Mehefin 2019) **(CGA 54/19)**
- Ymateb CGA i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' **(CGA 55/19)**
- Adroddiad cynnydd ar ariannu sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol **(CGA 56/19)**
- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol **(CGA 57/19)**

Wedyn, symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.